

Craffu ar Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig

Crynodeb 1

Mehafin 2020

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn archwilio sut mae'r pandemig Covid-19 yn effeithio ar bob agwedd ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan bawb sydd ynghlwm â rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ar draws sectorau, gan gynnwys - ymhlith eraill - addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwaith ieuenctid. Ym mis Ebrill 2020, lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad agored i geisio safbwyntiau a phrofiadau o effaith y pandemig. Mae fersiwn addas i blant o'r alwad am safbwyntiau ar gael hefyd.

Gyda hyn mewn golwg, roedd sicrhau bod lleisiau pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn rhan flaenllaw o'r gwaith craffu yn bwysig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Er mwyn ategu hyn, mae'r tîm ymgysylltu â dinasyddion wedi canolbwyntio ar sut i ymgysylltu â

chynulleidfaoedd penodol y gellid ystyried eu bod yn dod o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys y prif ganfyddiadau hyd yma.

Mae'r dull ymgysylltu yn cynnwys gweithio'n agos gyda sefydliadau partner sy'n cyfathrebu â phobl ifanc yn rheolaidd. Trwy gynnig arweiniad ac anogaeth i'r sefydliadau hyn, maent wedi galluogi'r tîm ymgysylltu â dinasyddion i gasglu profiadau gwerthfawr yn uniongyrchol gan bobl ifanc a dwyn y rhain i sylw'r Pwyllgor.

At hynny, trwy addasu'r dull cwestiynu a ddefnyddiwyd yn y brif alwad am safbwyntiau, crëwyd taflen waith bapur ar gyfer pobl ifanc a allai fod angen llwybr nad yw'n ddigidol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Dosbarthwyd y daflen hon gyda chefnogaeth sefydliadau partner a bydd y canfyddiadau yn cael eu cynnwys mewn crynodebau dilynol.

Dyma fydd y cyntaf o sawl crynodeb a fydd yn cael eu cyflwyno yn achlysurol trwy gydol yr ymgynghoriad. Bydd pob crynodeb yn cael ei rannu'n 2 rhan:

- Rhan 1 - Themâu sy'n berthnasol i bwnc cyfarfod y Pwyllgor yn ystod yr wythnos sydd i ddod
- Rhan 2 - Themâu cyffredinol sy'n codi o safbwyntiau plant a phobl ifanc y tu hwnt i bwnc y cyfarfod nesaf

Dewiswyd y themâu a'r dyfyniadau ar y sail eu bod yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro ac sy'n berthnasol i'r sefyllfa bresennol. Lle bo'n bosibl ac yn briodol, mae gwybodaeth gyffredinol wedi'i chysylltu â'r dyfyniadau i roi cyd-destun i'r crynodeb hwn.



Rhan 1 - Themâu iechyd meddwl ac iechyd corfforol

Dim digon o fannau awyr agored a thai gorlawn – Mae llawer o bobl ifanc wedi nodi nad oes llawer o le yn yr awyr agored ar gael iddynt ac felly nid oes ganddynt gyfle i wneud ymarfer corff a chadw'n heini yn ystod y cyfnod hwn. Fe wnaethant sôn hefyd am bryderon ynghylch methu â chwarae gyda'u ffrindiau, ond mae'n ymddangos eu bod yn deall pam.

"Dwi'n codi'n gynnar bob dydd. Dwi'n hoffi mynd am dro hir gyda fy mam a fy chwaer. Neu, os bydda i yn nhŷ fy nhad, byddaf yn mynd ar y beic. Dwi wastad eisiau bod yn yr awyr agored. Ond allwn ni ddim aros yn yr awyr agored am amser rhy hir nawr. Dyw'r ardd ddim yn fawr, felly does dim llawer o le yno." - person ifanc

"Y tro diwethaf i fi fynd tu allan oedd pan ddes i'n ôl o'r ysgol bum wythnos yn ôl. Does dim gardd gen i felly rydyn ni'n mynd i glapio ar garreg y drws bob dydd lau ar gyfer y meddygon." - ceisiwr lloches ifanc

"Symudodd fy chwaer a'i babi aton ni a nawr mae'r tŷ yn orlawn." - person ifanc

"Y pethau rwy'n eu colli fwyaf yw gweld fy ffrindiau a chwaraeon tîm." - person ifanc

"Rwy'n gweld eisiau fy ffrindiau, fy athrawon a gallu mynd allan i chwarae." - person ifanc

Mynediad at fwyd – Cawsom sylwadau am brydau ysgol am ddim a siopa yn ystod y cyfyngiadau symud a'r cyfnod ers cau'r ysgolion.

"Mae'r prydau ysgol am ddim yn helpu ond nid ydyn nhw'n mynd yn ddigon pell. Mae Mam yn cael taleb ond nid yw'n para wythnos. Mae'n anodd iawn cael gafael ar fwyd ar hyn o bryd ac ni allwn fynd i siop fawr gan eu bod yn rhy bell i ffwrdd ac ni allwn i gyd fynd i mewn." - Ceisiwr lloches ifanc

"Mae mynd i'r siop yn anodd, a minnau'n feichiog a nawr fy mod i wedi gwahanu oddi wrth fy mhartner. Doeddwn i'n methu cael tacsï tan yn ddiweddar oherwydd y cyfyngiadau symud. Rwy'n ei chael yn anodd methu â gweld llawer o bobl." - menyw 22 oed, sy'n byw mewn llety annibynnol

"Hefyd, nid yw rhai pobl ifanc yn gallu gweld eu gwybodaeth bancio gan fod canghennau banc ar gau ac oherwydd nad oes ganddynt fynediad ar-lein. Mae hyn yn achosi straen a phryder gan eu bod yn ansicr a yw taliadau wedi mynd i mewn, a yw biliau wedi'u talu ac a

oes ganddyn nhw ddigon o arian i fynd i siopa." - Gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Pryderon am iechyd meddwl – Gwnaed llawer o sylwadau gan bobl ifanc yn awgrymu y gallai'r cyfyngiadau symud neu gau ysgolion effeithio ar eu hiechyd meddwl eu hunain neu iechyd meddwl pobl ifanc eraill.

"Rwy'n dioddef gyda fy iechyd meddwl ac mae hyn wedi effeithio'n fawr arno. Rwy'n teimlo fy mod i wedi colli fy rhyddid. Rydw i wedi teimlo'n isel ac yn gwybod bod fy iechyd meddwl wedi gwaethygu. Dwi ddim yn siŵr pam rydw i'n teimlo fel hyn, dwi'n meddwl fy mod i'n cael fy ngadael allan o bethau ac yn aml yn teimlo'n unig. Mae gen i apiau ar fy ffôn y cefais wybod amdany'n nhw gan CAMHS. Rwy'n defnyddio'r rhain yn aml i helpu." - person ifanc

"Mae angen i bobl gadw mewn cysylltiad, mae angen mynediad i'r rhynggrwyd, gliniaduron ac arian arny'n nhw ar gyfer eu ffôn, er mwyn cysylltu â theulu a ffrindiau neu bobl eraill. Fel arall, byddai'n effeithio'n wael ar fy iechyd meddwl." - person ifanc

"Mae angen i bobl ymgysylltu ag athrawon a gweithwyr ieuenctid ac i allu defnyddio llwyfannau digidol, mae angen sgriniau arnom ni i ryngweithio wyneb yn wyneb. Gallai diffyg mynediad ychwanegu at feddyliau drwg neu ddod â nhw yn ôl. Gall eistedd o fewn yr un waliau fod mor niweidiol i'ch iechyd meddwl." - person ifanc

"Rwy'n aros yn fy ystafell wely drwy'r dydd, does gen i ddim trefn i fy nghadw i fynd. Rwy'n teimlo fy mod i wedi colli fy hun. Dydw i ddim yn cysgu nac yn bwyta; does gen i ddim ffrindiau i siarad â nhw. Yn yr ysgol, roeddwn i'n gallu gweld rhai ffrindiau ond dyw hyn ddim yr un peth." - person ifanc 16 oed mewn gofal maeth.

Gwahaniaethu posibl tuag at y grwpiau hyn – Roedd un person ifanc yn teimlo, gan ei fod yn berson ifanc sydd wedi bod mewn gofal, fod y cyfyngiadau yn gwahaniaethu yn ei erbyn, ac roedd hyn yn cael effaith ar ei iechyd meddwl a chorfforol.

"Os oes gennych broblemau iechyd meddwl, mae'r awyr iach yn golygu eich bod yn teimlo'n well ac felly mae angen mwy ohono arnoch chi. Rydym ni'n yn llai tebygol o fod â gardd ac felly mae angen i ni adael y tŷ yn fwy aml na phobl eraill. Pam nad oes yna fwy o ddealltwriaeth bod angen i ni fod oddi cartref am fwy o amser? Mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn aml yn fwy hysbys i'r heddlu lleol ac mae rhai yn cael eu targedu, heb ddeall y gallem ni fod allan am resymau iechyd meddwl ac nid iechyd corfforol yn unig." - Person ifanc sydd wedi bod mewn gofal

"Pam ei bod mor anodd i blant sy'n agored i niwed a phlant sydd wedi bod mewn gofal cymdeithasol gael mynediad at gymorth iechedd meddwl?" - Person ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Rhan 2 - Canfyddiadau allweddol ychwanegol

Diffyg darpariaeth ddigidol neu hyder ar-lein (yn enwedig o ran addysg) - mae'r sylwadau canlynol yn tynnu sylw at rai o safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol neu rieni ynghylch y thema hon.

"Rwy'n gwneud fy ngwaith weithiau. Dw i ddim yn hoffi ei wneud gartref. Dim ond un iPad sydd gyda ni yn nhŷ fy mam ac mae'n rhaid i fi aros am fy chwaer." - person ifanc

"Yr hyn sydd ei angen yw ffonau symudol a'r rhyngwrwyd. Pe na bawn yn gallu siarad â phobl ar Zoom, byddwn yn teimlo'n unig ac yn ynysig ac yn teimlo na allwn gymryd rhan yn unrhyw beth. Mae angen i mi weld wynebau pobl, mae'n fwy personol" - person ifanc

"Rwy'n cael cyfarfodydd Zoom gydag athrawon. Dwi ddim yn hoff iawn o hyn gan fod yn well gen i siarad ar y ffôn. Dwi ddim wir yn mwynhau siarad fel hynny gan fy mod i'n teimlo cywilydd ond dwi'n gwybod ei fod yn ffordd dda o siarad. Rwy'n hoffi cyfathrebu wyneb yn wyneb pan rydw i gyda phobl yn y cawd. Rwyf wedi colli rhai gwersi gan fy mod yn teimlo dan straen." - person ifanc

"Cynigiodd yr ysgol Chromebook i ni ond doeddwn i ddim eisiau esbonio iddyn nhw nad oes gennym ni fand eang. Rydym ni'n cael cyn lleied o arian bob wythnos fel ceiswyr lloches, mae'n rhaid i ni ddewis rhwng pryd o fwyd neu fand eang. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr hyn rydyn ni'n ei dderbyn ond mae'n anodd iawn." - Rhiant a cheisiwr lloches

"Nid oedd gan un teulu unrhyw dechnoleg gartref felly, er eu bod yn byw ar fudd-daliadau, gwnaethant fenthyg £500 i brynu iPad fel y gallai'r plentyn 10 oed wneud yr un gwaith â'i gyd-ddisgyblion." - Gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Effeithiau tymor hir y cyfyngiadau symud – Roedd llawer o bobl ifanc yn poeni am y dyfodol a sut olwg fyddai ar hyn. Roedd ganddyn nhw bryderon hefyd ynghylch problemau ymlyniad posibl a allai godi yn sgil peidio â gweld ffrindiau a theulu, neu orfod cyfathrebu â nhw mewn ffordd hollol newydd.

"Rwy'n poeni am sut mae'r cyfyngiadau symud yn effeithio ar blant ifanc mewn gwirionedd. Dywedir wrthynt am beidio â rhyngweithio'n gymdeithasol/yn gorfforol – ni all hynny fod yn dda." - person ifanc

"Rwy'n colli gweld pobl, yn enwedig pan maen nhw'n gallu fy helpu trwy fynd â fi i bethau a lleoedd [ar gyfer addysg a chyfleoedd cyflogaeth]. Roeddwn i fod i gael help un i un i chwilio am swyddi ond nid yw neges destun yn help mawr. Gallwn fod wedi mynd ar gwrs manwerthu ond mae hynny wedi dod i ben nawr." - person ifanc

"Roeddwn i fod i gwblhau blwyddyn 11 yr haf hwn a sefyll fy arholiadau TGAU. Rwy'n bryderus iawn nawr gan nad yw hyn yn edrych yn bosibl. Mae llawer o wahanol bethau wedi cael eu dweud am hyn ond dwi ddim yn deall y broses o hyd. Oherwydd salwch, cymerais lawer o amser i ffwrdd y llynedd, mae rhagolygon fy ngraddau yn isel ac nid oes unrhyw beth y gallaf ei wneud amdanynt. Dywedodd yr ysgol efallai y byddwn yn gallu sefyll ein harholiadau TGAU y flwyddyn nesaf wrth i ni wneud ein Safon Uwch ond rwy'n credu y byddai hynny'n ormod o straen." - person ifanc